OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 993 (Cy. 146 )

# CREDYDAU TRETH, CYMRU

## Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Cynllun)*

Mae'r Cynllun hwn yn diwygio Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007 ("Cynllun 2007").

Mae Cynllun 2007 yn darparu ar gyfer cymeradwyo darparwyr gofal plant at ddibenion adran 12(5) o Ddeddf Credydau Treth 2002 (“y Ddeddf”). Gofal plant cymwys (fel y'i diffinnir yn erthygl 5 o Gynllun 2007) a ddarperir gan berson a gymeradwyir yn unol â Chynllun 2007 yw gofal a ddarperir gan berson o ddisgrifiad rhagnodedig at ddibenion adran 12(4) o'r Ddeddf. Mae Rheoliadau Credyd Treth Gwaith (Yr Hawl i'w Gael a'r Gyfradd Uchaf) 2002 (O.S. 2002/2005), a wnaed o dan adran 12(1) o'r Ddeddf, yn rhagnodi o dan ba amgylchiadau y gall hawl i gael credyd treth gwaith ar gyfer gofal a ddarperir gan berson a gymeradwyir yn unol â Chynllun 2007 godi.

Mae'r Cynllun hwn yn diwygio Cynllun 2007 i ddarparu, pan ddaw'r Cynllun hwn i rym, mai Gweinidogion Cymru fydd y corff cymeradwyo (drwy Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) (erthygl 2).

Mae diwygiadau canlyniadol wedi eu gwneud i Gynllun 2007 gan erthyglau 3 i 8.

Mae erthygl 9 yn mewnosod darpariaeth arbed a darpariaeth drosiannol yng Nghynllun 2007 fel bod cymeradwyaethau sy'n ddilys yn union cyn i'r Cynllun hwn ddod i rym yn parhau i fod yn effeithiol o dan amgylchiadau rhagnodedig. Mae darpariaeth hefyd wedi ei gwneud i ymdrin â cheisiadau am gymeradwyaeth nad ydynt wedi eu cwblhau cyn 1 Ebrill 2011.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 993 (Cy. 146 )

# CREDYDAU TRETH, CYMRU

## Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Mawrth 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *30 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod cenedlaethol priodol o dan adran 12(6) o Ddeddf Credydau Treth 2002(**1**), yn gwneud y diwygiadau a ganlyn i'r Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007(**2**) drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 12(5), (7) ac (8) a 65(3) a (9) o'r Ddeddf honno.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2011 a daw i rym ar 1 Ebrill 2011.

(2) Mae'r Cynllun hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Cynllun hwn ystyr "y prif Gynllun" *("the principal Scheme")* yw Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007.

**Diwygio erthygl 2 o'r prif Gynllun**

**2.** Yn erthygl 2 o'r prif Gynllun (diffiniadau), yn y diffiniad o "corff cymeradwyo" *("approval body")*, yn lle "yw'r corff y cyfeirir ato yn erthygl 3" rhodder "yw Gweinidogion Cymru".

(**1**) 2002 p. 21. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 12(5), (7) ac (8) a 65(3) a (9) o Ddeddf Credydau Treth 2002 ("y Ddeddf") i Weinidogion Cymru drwy weithrediad paragraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). *Gweler* adran 67 o'r Ddeddf am y diffiniad o "prescribed" ac adran 65(3) am y diffiniad o "schemes".

(**2**) O.S. 2007/226 (Cy. 20), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/2687 (Cy. 237).

**Dirymu erthygl 3 o'r prif Gynllun**

**3.** Mae erthygl 3 o'r prif Gynllun (corff penodedig) wedi ei dirymu.

**Diwygio erthygl 6 o'r prif Gynllun**

**4.** Yn lle paragraff (1) o erthygl 6 o'r prif Gynllun (person a gymeradwywyd) rhodder y canlynol—

> “(1) Rhoddir cymeradwyaeth i berson fel darparydd gofal plant o dan y Cynllun hwn os yw'r corff cymeradwyo wedi'i fodloni bod y meini prawf cymeradwyo wedi'u bodloni mewn perthynas â'r person hwnnw.”.

**Diwygio erthygl 7 o'r prif Gynllun**

**5.** Ym mharagraff (b) o erthygl 7 o'r prif Gynllun (meini prawf cymeradwyo) yn lle "Gynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "Weinidogion Cymru".

**Diwygio erthyglau 8, 9 a 10 o'r prif Gynllun**

**6.** Yn erthyglau 8 (system gymeradwyo), 9 (yr wybodaeth sydd i'w darparu gan y corff cymeradwyo) a 10 (y cyfnod cymeradwyo) o'r prif Gynllun, yn lle "rhaid i" rhodder "bydd" ym mhob man lle y mae'n ymddangos.

**Diwygio erthygl 12 o'r prif Gynllun**

**7.** Yn erthygl 12 o'r prif Gynllun (ffioedd) hepgorer ", a hynny'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru".

**Dirymu erthygl 13 o'r prif Gynllun**

**8.**Mae erthygl 13 o'r prif Gynllun (darpariaethau trosiannol) wedi ei dirymu.

**Mewnosod erthyglau yn y prif Gynllun**

**9.**Mae'r erthyglau a ganlyn wedi eu mewnosod yn y prif Gynllun—

> **“Arbed**
>
> **14.**—(1) Er gwaethaf dwyn y Cynllun hwn i rym, mae unrhyw gymeradwyaeth a roddir i ddarparydd gofal plant gan y cyn gorff cymeradwyo yn ddilys yn union cyn 1 Ebrill 2011 yn parhau i fod yn effeithiol mewn perthynas â'r darparydd hwnnw hyd nes y cynharaf o'r tri dyddiad isod, sef —
>
> (a) y dyddiad pryd y tynnir y gymeradwyaeth honno yn ôl yn unol ag erthygl 6;

(b) y dyddiad pryd y daw'r gymeradwyaeth i ben am fod amser wedi mynd heibio; neu

(c) y dyddiad pryd y rhoddir cymeradwyaeth i'r darparydd gofal plant dan sylw gan y corff cymeradwyo yn unol ag erthygl 6.

(2) Yn yr erthygl hon ac yn erthygl 15, ystyr "cyn gorff cymeradwyo" ("*former approval body*") yw Nestor Primecare Services Limited, sy'n masnachu fel Nestor Criminal Records Agency(**1**).

**Darpariaeth drosiannol**

**15.** Pan fo cais am gymeradwyaeth fel darparydd gofal plant wedi cael ei gyflwyno i'r cyn gorff cymeradwyo ond nid yw wedi ei roi na'i wrthod eto gan y cyn gorff cymeradwyo cyn 1 Ebrill 2011, bydd y cais hwnnw am gymeradwyaeth yn cael ei benderfynu gan y corff cymeradwyo.".

*Huw Lewis*

Y Dirprwy Weinidog dros Blant, o dan awdurdod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

28 Mawrth 2011

(**1**) A gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru Rhif 1963820.